

## DOGFEN YMGYNGHORI



### Cynnig i Estyn Ysgol Gynradd Drury

**Gan gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Drury o 124 i 180 o ddysgwyr  
llawn amser ar 1 Medi 2024**



**Cyfnod Ymgynghori:**

**1 Mawrth 2022 i 11 Ebrill 2022**

## Ymgynghoriad ynghylch estyn Ysgol Gynradd Drury

Gan gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Drury o 124 i 180 o ddysgwyr llawn amser ar 1 Medi 2024

### A. TROSOLWG

|                                       |   |
|---------------------------------------|---|
| A1. Cyflwyniad                        | 4 |
| A2. Trosolwg o'r cynnig               | 4 |
| A3. Gofynion ymgynghori               | 4 |
| A4. Gyda phwy y byddwn yn ymgynghori? | 5 |
| A5. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad     | 7 |
| A6. Manylion Cyswllt                  | 8 |
| A7. Beth fydd yn digwydd nesaf?       | 8 |

### RHAN B – YR ACHOS DROS NEWID

|                                          |    |
|------------------------------------------|----|
| B1. Cefndir y cynnig                     | 9  |
| B2. Y sefyllfa bresennol                 | 9  |
| B3. Lleoliad Ysgol Gynradd Drury         | 11 |
| B4. Gwybodaeth ddemograffig              | 11 |
| B5. Amcanestyniadau o nifer y disgyblion | 13 |
| B6. Ansawdd y ddarpariaeth addysg        | 14 |

### RHAN C – Y CYNNIG

|                                                 |    |
|-------------------------------------------------|----|
| C1. Beth fydd y cynnig yn ei ddarparu?          | 16 |
| C2. Pryd fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith? | 16 |
| C3. Cost y cynnig                               | 16 |
| C4. Dewisiadau a ystyriwyd                      | 16 |

### RHAN D – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG

|                                                          |    |
|----------------------------------------------------------|----|
| D1. Effaith ar yr amgylchedd lleol                       | 18 |
| D2. Effaith ar dderbyniadau                              | 18 |
| D3. Effaith ar gludiant o'r cartref i'r ysgol            | 18 |
| D4. Effaith ar drosglwyddiadau i ysgol uwchradd          | 18 |
| D5. Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | 18 |
| D6. Effaith ar drefniadau llywodraethu                   | 19 |
| D7. Effaith ar staff                                     | 19 |

---

## **RHAN D – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG**

---

|                                |    |
|--------------------------------|----|
| D8. Effaith ar ysgolion eraill | 19 |
| D9. Risgiau'r prosiect         | 19 |
| D10. Asesiad o'r effaith       | 20 |
| D11. Yr effaith ar y Gymraeg   | 20 |
| D12. Effaith adeiladu          | 20 |
| D13. Trefniadau dros dro       | 20 |

---

## **RHAN E – FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD**

---

|                                      |    |
|--------------------------------------|----|
| E1. Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad | 21 |
| E2. Gwybodaeth monitro cydraddoldeb  | 23 |

Mae'r ddogfen ymgynghori hon wedi'i chyhoeddi ar ffurf copi caled, os oes arnoch chi angen copi papur neu gopi o'r ddogfen hon ar ffurf wahanol e.e. Braille neu brint bras, neu os oes arnoch chi angen cymorth i ddehongli'r ddogfen mewn iaith arall, cysylltwch â'r Tîm Moderneiddio Ysgolion ar 01352 704011 / 01352 704015 neu [21stCenturySchools@flintshire.gov.uk](mailto:21stCenturySchools@flintshire.gov.uk).

## Ymgynghoriad ynghylch Estyn Ysgol Gynradd Drury

**Gan gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Drury o 124 i 180 o ddysgwyr llawn amser ar 1 Medi 2024**

---

### A. TROSOLWG

---

#### A1. Cyflwyniad

---

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gyfle i ymgynghoreion ac unigolion eraill sydd â diddordeb i ddysgu mwy am y newidiadau rydym ni'n cynnig eu gwneud i drefniadau lleoedd ysgol yn Ysgol Gynradd Drury.

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli cyfrifoldebau Cyngor Sir y Fflint (y Cyngor), dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, i ymgynghori gyda budd-ddeiliaid priodol wrth ystyried gwneud unrhyw ad-drefniant sylweddol i ysgol.

Mae'r ymgynghoriad yn gyfle i chi ofyn cwestiynau, darparu sylwadau a rhannu'ch barn am y cynigion. Bydd eich mewnbwn i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei ystyried yn ofalus wrth i'r Cyngor benderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig.

---

#### A2. Trosolwg o'r cynnig

---

Mae'r Cyngor yn gofyn am eich barn ynglŷn â chynnig i wneud safle'r ysgol yn fwy ac i gynyddu nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Drury.

Mae'r Cyngor yn cynnig darparu'r lleoedd ysgol ychwanegol fel a ganlyn:

Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Drury o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer 124 o ddysgwyr llawn amser i 180 o ddysgwyr llawn amser, sef cynnydd o 56 lle llawn amser ar 1 Medi 2024.

Mae'r cynnig yn cynyddu niferoedd derbyn yr ysgol o 17 dysgwr bob grŵp blwyddyn i 25.

Byddwn yn cyflawni'r cynnydd hwn drwy estyn adeilad presennol yr ysgol. Y cynnig yw gweithredu capasiti newydd yr ysgol ar ôl i'r gwaith adeiladu ddod i ben, sef erbyn 1 Medi 2024.

*Nodyn i ddarllenwyr: nid oes cynigion cysylltiedig eraill i'w hystyried.*

---

#### A3. Gofynion ymgynghori

---

Dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 mae'n gyfrifoldeb ar y Cyngor i ymgynghori gyda budd-ddeiliaid priodol wrth ystyried gwneud unrhyw ad-drefniant sylweddol i ysgol.

Mae angen dilyn gweithdrefnau statudol i wneud newidiadau sylweddol i ysgolion. Mae'r gweithdrefnau wedi'i llunio i alluogi newidiadau lle bo'r rheiny'n angenrheidiol, a hynny mewn ffordd sy'n diogelu budd dysgwyr ac sy'n caniatáu i bartïon sydd â diddordeb ddweud eu dweud yn ystod y broses.

Gan ddilyn canllawiau rheoleiddio'r Cod, mae'r Cyngor yn dymuno ymgynghori gyda budd-ddeiliaid sydd â diddordeb ynghylch newid a reoleiddir i Ysgol Gynradd Drury, ble cynigir ehangu safle'r ysgol.<sup>1</sup>

Bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn para 42 diwrnod, gydag o leiaf 20 o'r rheiny yn ddiwrnodau ysgol. Bydd cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau ar yr hyn sy'n cael ei ystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu gweithredu'r cynnig neu beidio.

Mae barn plant a phobl ifanc yn bwysig iawn i'r Cyngor ac felly bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyfrannu at y broses ymgynghori. Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu fersiwn gryno o'r ddogfen hon a fydd ar gael i bob plentyn a pherson ifanc sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig hwn.

#### A4. Gyda phwy y byddwn yn ymgynghori?

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal rhwng **1 Mawrth 2022 a hanner nos ar 11 Ebrill 2022**. Mae'n rhaid cynnal yr ymgynghoriad hwn am o leiaf 42 diwrnod, gydag o leiaf 20 o'r rheiny yn ddiwrnodau ysgol.

Mae'r ddogfen ymgynghori ffurfiol hon wedi'i hanfon at amrywiaeth eang o ymgynghoreion yn cynnwys:

| Gofyniad dan God Trefniadaeth Ysgolion 011/2018                                                                                                                                                                                                        | Bydd yn cael ei ddosbarthu i'r canlynol:                                                                                                                                                                                                                                                 |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cymuned yr ysgol                                                                                                                                                                                                                                       | Pennaeth, athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Gynradd Drury<br><br>Disgyblion Ysgol Gynradd Drury<br><br>Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwad (ac, os yn bosibl, darpar rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid) disgyblion Ysgol Gynradd Drury<br><br>Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Drury |
| Awdurdod cynnal neu awdurdod cynnal arfaethedig ar gyfer unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio gan y cynnig;                                                                                                                                  | Cyngor Sir y Fflint sy'n cyflwyno'r cynnig                                                                                                                                                                                                                                               |
| Unrhyw awdurdod lleol arall sy'n debygol o gael ei effeithio – gan gynnwys yn achos darpariaeth Angen Addysgol Arbennig (AAA)/Angen Dysgu Ychwanegol (ADY) penodol, unrhyw awdurdod sy'n lleoli neu sy'n debygol o leoli disgyblion â datganiad ynddi; |                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio wedi'i lleoli;                                                                          | Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru<br>Esgobaeth Gatholig                                                                                                                                                                                                                                    |
| Unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arni;                                                                                                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| Corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynnig ac ysgolion eraill sy'n debygol o gael eu                                                                                                                                                         | Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymunedol Mountain Lane                                                                                                                                                                                                                                 |

Cyfeirnod: Cod Trefniadaeth Ysgolion Dogfen cod statudol rhif  
: 011/2018 - Tudalen 21

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/cod-trefniadaeth-ysgolion-fersiwn-diwygiedig.pdf>

|                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                       |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| heffeithio gan y cynigion, gan gynnwys rhai a allai dderbyn unrhyw ddisgybli wedi'i ddadleoli.                                                                                           | Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymunedol Westwood<br>Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymunedol Southdown<br>Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymunedol Ewloe Green |
| Corff llywodraethu unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni;                                                                        | Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Elfed<br>Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Penarlâg<br>Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Argoed                                     |
| Gweinidogion Cymru.                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                       |
| Aelodau'r Cynulliad (AC) ac Aelodau Seneddol (AS) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion.                    | AS<br>AC                                                                                                                                                              |
| Estyn.                                                                                                                                                                                   | Prif Arolygydd<br>Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru                                                                                                                   |
| Undebau llafur addysgu ac undebau llafur staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion.                                                        | Cynrychiolwyr NASUWT, NEU, UCAC,<br>Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau;<br>UNSAIN                                                                               |
| Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol.                                                                                                                                              | Ymgynghorydd GWE Ysgol Gynradd Drury                                                                                                                                  |
| Y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol perthnasol.                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                       |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal a wasanaethir/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion.                                            | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru                                                                                                                           |
| Unrhyw gyngor cymuned neu gyngor tref ar gyfer yr ardal a wasanaethir/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion                                        | Cyngor Cymuned Drury                                                                                                                                                  |
| Y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol (mewn ardaloedd perthnasol).                                                                                                                     |                                                                                                                                                                       |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth meithrin, unrhyw ddarparwr annibynnol a all gael ei effeithio;                                                                          | Busy Bees Meithrin<br>Stepping Stones Meithrin<br>First Steps Meithrin<br>The Highway Meithrin                                                                        |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth meithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lle maen nhw'n bresennol. | Mudiad Meithrin<br>Blynyddoedd Cynnar Cymru<br>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd PACEY                                                                       |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Angen Addysgol Arbennig/Angen Dysgu Ychwanegol, unrhyw gorff iechyd neu trydydd sector perthnasol sydd â diddordeb.                     |                                                                                                                                                                       |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol.                                                            |                                                                                                                                                                       |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion                                                                                       |                                                                                                                                                                       |

|                                                                                        |                                                      |
|----------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------|
| cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno.    |                                                      |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth iaith Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg. |                                                      |
| Arall                                                                                  | Pob Cyngorydd Sir y Fflint<br>Cymuned ehangach Drury |

Mae'r ddogfen hon wedi'i chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir y Fflint ac ar gael drwy ddilyn y ddolen isod:

<https://www.sirfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx>

## A5. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Mae'ch barn chi am y cynigion i gynyddu nifer y lleoedd ysgol yn Ysgol Gynradd Drury yn bwysig i ni. Mae ar y Cyngor eisiau i chi gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn a dweud wrthym ni beth ydych chi'n feddwl o'r cynnig, yn enwedig os yw'n mynd i effeithio arnoch chi neu'ch plant.

Mae'r Cyngor erbyn hyn yn cynnal prosesau ymgynghori statudol gyda'r holl bartion sydd â diddordeb i wneud yn siŵr bod unrhyw benderfyniad a wneir ganddo yn un ar sail gwybodaeth.

Dyma amserlen yr ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynigion statudol:

| Dechrau'r cyfnod ymgynghori statudol | Diwedd y cyfnod ymgynghori statudol | Cyfnod ymgynghori                            |
|--------------------------------------|-------------------------------------|----------------------------------------------|
| 1 Mawrth 2022                        | 11 Ebrill 2022                      | 42 diwrnod<br>(20 diwrnod yn ddiwrnod ysgol) |

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi holiadur ar-lein sydd ar gael ar ein gwefan neu drwy ddilyn y ddolen ganlynol.

Dilynwch y dudalen hon <https://www.smartsurvey.co.uk/s/C6FWQH/>



Dilynwch y Cod QR hwn

Mae copi papur o'r holiadur hefyd ar gael yng nghefn y ddogfen hon. Fel arall gallwch ymateb yn ysgrifenedig yn defnyddio'r manylion cyswllt ar y dudalen nesaf.

Mae'n rhaid i ni dderbyn yr holl ymatebion erbyn hanner nos dydd Llun 11 Ebrill 2022.

Oherwydd y sefyllfa iechyd y cyhoedd bresennol, ac i helpu i gyfyngu ar ledaeniad y Coronafeirws, nid yw'r Cyngor yn bwriadu cynnal digwyddiadau galw heibio yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Yn hytrach, gallwch anfon cwestiynau mewn e-bost i [21stCenturySchools@flintshire.gov.uk](mailto:21stCenturySchools@flintshire.gov.uk), a bydd swyddogion y Cyngor yn darparu ymateb o fewn 7 diwrnod.

## A6. Manylion cyswllt

Dylid anfon bob ymateb i'r cyfeiriad canlynol:  
Tîm Moderneiddio Ysgolion  
Cyngor Sir y Fflint  
Tŷ Dewi Sant  
Parc Dewi Sant  
Ewlo  
Sir y Fflint  
CH5 3XT

E-bost: 21stCenturySchools@flintshire.gov.uk

Rhif ffôn: 01352 704014 neu 01352 704015

Bydd blwch post hefyd ar gael yn nerbynfa Ysgol Gynradd Drury i chi anfon eich ymateb.

## A7. Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, byddwn yn llunio adroddiad ymgynghori a fydd yn amlinellu'r adborth a dderbyniwyd. Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad hwn ac yn penderfynu a ydynt yn dymuno bwrw ymlaen â'r dewis a ffefrir yn y ddogfen ymgynghori. Disgwylir y bydd y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynnig neu beidio yn cael ei wneud ddiwedd 2022, yn amodol ar amserlenni'r etholiadau lleol yng Nghymru.

Os yw'r Cabinet yn cymeradwyo rhan gyntaf y broses, bydd y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad statudol a bydd gan bobl 28 diwrnod i wrthwynebu. Bydd y Cabinet wedyn yn ystyried adroddiad arall yn crynhoi unrhyw wrthwynebiad ac yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig neu beidio.

Mae'r amserlen arfaethedig ar gyfer penderfynu yn dilyn y broses ymgynghori ffurfiol, sef:

| Cam o'r Broses                                                                                            | Dyddiadau Allweddol |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|
| Y Cabinet yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad ac yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig neu beidio       | Gorffennaf 2022     |
| Y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad statudol ac yn dechrau'r cyfnod gwrthwynebu                                | Medi 2020           |
| Y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ar y gwrthwynebiadau ac yn penderfynu gweithredu'r cynigion neu beidio | Tachwedd 2022       |
| Cyhoeddi llythyr ynglŷn â phenderfyniad y Cabinet                                                         | Tachwedd 2022       |

## RHAN 5 – YR ACHOS DROS NEWID

### B1. Cefndir y cynnig

Ers sawl blwyddyn bellach mae Ysgol Gynradd Drury wedi estyn croeso i fwy o ddisgyblion na'r lleoedd sydd ar gael ynddi, ac mae hynny wedi rhoi pwysau ar ofod yr ysgol ac wedi arwain at osod dosbarthiadau symudol ar y safle i gefnogi'r disgyblion ychwanegol a dderbynnir.

Er mwyn estyn Ysgol Gynradd Drury, mae'n rhaid i'r Cyngor dderbyn eich barn chi am y cynnig.


Mae'r Cyngor yn cynnig darparu'r lleoedd ysgol ychwanegol fel a ganlyn:

- ❖ Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Drury o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer 124 o ddysgwyr llawn amser i 180 o ddysgwyr llawn amser, sef cynnydd o 56 dysgwr llawn amser ar 1 Medi 2024
- ❖ Estyn adeilad presennol yr ysgol drwy greu dwy ystafell ddosbarth newydd (nid yw'r estyniadau wedi'u cymeradwyo eto drwy'r broses gynllunio)

### B2. Y sefyllfa bresennol

|                                                       |                  |                                                    |          |
|-------------------------------------------------------|------------------|----------------------------------------------------|----------|
| <b>Lleoliad yr ysgol</b>                              |                  | Beech Road, Drury, Bwcle, Sir y Fflint,<br>CH7 3EG |          |
| <b>Ystod Oedran</b>                                   |                  | 3-11                                               |          |
| <b>Categori Ysgol</b>                                 |                  | Ysgol gymunedol                                    |          |
| <b>Categori Iaith</b>                                 |                  | Saesneg                                            |          |
|                                                       |                  | Derbyn - Blwyddyn<br>6                             | Meithrin |
| <b>Nifer y dysgwyr ar y gofrestr ym mis Medi 2021</b> |                  | 142                                                | 12       |
| <b>Nifer y dysgwyr ar gofrestr yr ysgol</b>           | <b>Medi 2020</b> | 142                                                | 18       |
|                                                       | <b>Medi 2019</b> | 143                                                | 19       |
|                                                       | <b>Medi 2018</b> | 141                                                | 22       |
|                                                       | <b>Medi 2017</b> | 142                                                | 15       |
| <b>Nifer y lleoedd ysgol</b>                          |                  | 124                                                | 12       |
| <b>Lleoedd gwag</b>                                   |                  | -18                                                |          |

|                                             |                                                                                                           |     |    |
|---------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----|----|
| <b>Amcanestyniadau o nifer y disgyblion</b> | <b>Medi 2022</b>                                                                                          | 132 | 18 |
|                                             | <b>Medi 2023</b>                                                                                          | 133 | 17 |
|                                             | <b>Medi 2024</b>                                                                                          | 127 | 16 |
|                                             | <b>Medi 2025</b>                                                                                          | 126 | 17 |
|                                             | <b>Medi 2026</b>                                                                                          | 119 | 17 |
| <b>Categori Cyflwr yr Adeilad</b>           | Graddfa Cyflwr B - Boddhaol<br>Perfformio fel y bwriedir ond yn arddangos ychydig o ddirywiad.            |     |    |
| <b>Addasrwydd yr Adeilad</b>                | Graddfa Addasrwydd D - Gwael<br>Mae'r adeiladau yn atal gallu'r staff yn ddifrifol i ddarparu'r cwricwlwm |     |    |
| <b>Cost Datrys y Materion</b>               | £139,102                                                                                                  |     |    |



#### B4. Gwybodaeth ddemograffig

Mae dadansoddiad demograffig (Ionawr 2022) yn dangos bod yr ysgol ar y cyfan yn gwasanaethu ardal Drury; mae oddeutu 71.60% o ddysgwyr yr ysgol wedi dewis eu hysgol gymunedol leol agosaf.






Mae datblygiadau tai newydd yn ardal Bwcle eisoes wedi cynyddu nifer y disgyblion yn yr ardal, ac mae yna ddatblygiadau arfaethedig eraill ar y gweill a fydd yn gweld cartrefi newydd ychwanegol yn cael eu codi yn ardal ehangach Bwcle.

Heb estyn Ysgol Gynradd Drury, mae'n bosibl na fydd disgyblion o'r ardal gyfagos yn Drury ac ardal ehangach Bwcle yn debygol o dderbyn lle yn yr ysgol. Mae'r pwysau ar leoedd ysgol wedi'i ddangos isod.

## B5. Amcanestyniadau o nifer y disgyblion

| Year Group                                                                                             | ACTUAL     |            |            |            |            | LATEST DATA | FORECAST   |            |            |            |            | 5 Year Trend |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------|------------|------------|------------|------------|-------------|------------|------------|------------|------------|------------|--------------|
|                                                                                                        | Sep-16     | Sep-17     | Sep-18     | Sep-19     | Sep-20     | Sep-21      | Sep-22     | Sep-23     | Sep-24     | Sep-25     | Sep-26     |              |
| Nursery                                                                                                | 23         | 15         | 22         | 19         | 18         | 12          | 18         | 17         | 16         | 17         | 17         | 5            |
| Reception                                                                                              | 15         | 23         | 16         | 23         | 21         | 19          | 12         | 17         | 17         | 16         | 17         | -2           |
| Year 1                                                                                                 | 22         | 15         | 23         | 16         | 24         | 21          | 19         | 12         | 17         | 17         | 16         | -5           |
| Year 2                                                                                                 | 25         | 21         | 16         | 23         | 15         | 24          | 21         | 19         | 12         | 17         | 17         | -7           |
| Year 3                                                                                                 | 16         | 26         | 22         | 16         | 22         | 17          | 24         | 21         | 19         | 12         | 17         | 0            |
| Year 4                                                                                                 | 18         | 17         | 26         | 21         | 15         | 23          | 17         | 24         | 21         | 19         | 12         | -11          |
| Year 5                                                                                                 | 23         | 19         | 18         | 24         | 21         | 16          | 23         | 17         | 24         | 21         | 19         | 3            |
| Year 6                                                                                                 | 17         | 21         | 20         | 20         | 24         | 22          | 16         | 23         | 17         | 24         | 21         | -1           |
| <b>Total</b>                                                                                           | <b>136</b> | <b>142</b> | <b>141</b> | <b>143</b> | <b>142</b> | <b>142</b>  | <b>132</b> | <b>133</b> | <b>127</b> | <b>126</b> | <b>119</b> | <b>-23</b>   |
| Capacity                                                                                               | 124        | 124        | 124        | 124        | 124        | 124         | 124        | 124        | 124        | 124        | 124        | 0            |
| Surplus Places                                                                                         | -12        | -18        | -17        | -19        | -18        | -18         | -8         | -9         | -3         | -2         | 5          | 23           |
| Surplus Places %                                                                                       | -9.68%     | -14.52%    | -13.71%    | -15.32%    | -14.52%    | -14.52%     | -6.45%     | -7.26%     | -2.42%     | -1.61%     | 4.03%      | 18.55%       |
| Admission Number                                                                                       | 17         | 17         | 17         | 17         | 17         | 17          | 17         | 17         | 17         | 17         | 17         | 0            |
| Reception transfers in to the school from a nearby school forecasted to exceed their admission number  |            |            |            |            |            |             |            |            |            |            |            | 0            |
| Reception transfers out of the school to a nearby school as admission number forecasted to be exceeded |            |            |            |            |            |             |            | 1          |            |            |            | 0            |



## B6. Ansawdd y ddarpariaeth addysg

Mae Estyn a'r Cyngor yn monitro safonau ac ansawdd yr addysg yn ysgolion Sir y Fflint. Estyn yw swyddfa Prif Arolygwr Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n un o gyrrff y goron

sydd wedi'i sefydlu dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol o'r Senedd ond yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd gan Estyn yn 2007 *“Ni all hen adeiladau ysgolion sydd mewn cyflwr gwael ddiwallu anghenion addysgu a dysgu modern. Mae adeiladau anaddas yn ei gwneud hi'n fwy heriol cyflawni gwelliannau o ran safonau cyflawniad.”*<sup>2</sup>

Mae canlyniadau arolwg diwethaf Ysgol Gynradd Drury wedi'u hamlinellu isod:

| Ysgol:<br>Ysgol Gynradd Drury              | Meysydd Arolygu Allweddol Estyn | Barn Estyn                |
|--------------------------------------------|---------------------------------|---------------------------|
| Dyddiad yr Arolwg:<br><b>Tachwedd 2018</b> | Safonau                         | Digonol ac angen ei wella |
|                                            | Lles ac agweddau at ddysgu      | Da                        |
|                                            | Profiadau Addysgu a Dysgu       | Da                        |
|                                            | Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad  | Da                        |
|                                            | Arwain a Rheoli                 | Da                        |

Mae ystyriaeth wedi'i rhoi i effaith bosibl y cynnig ar ansawdd a safonau yn Ysgol Gynradd Drury, ac maent yn cyd-fynd â fframwaith arolygu diweddaraf Estyn ac wedi'u hadolygu isod:

### *Safonau*

Nid yw'r cynnig yn gwneud unrhyw newid i dîm arwain na strwythur Ysgol Gynradd Drury. Yn dilyn ymweliad dilynol gan Estyn, ystyrir bod tîm arwain Ysgol Gynradd Drury yn darparu safonau addysg da, a thynnwyd yr ysgol o'r categori monitro ym mis Mawrth 2021.

Bydd y cynnig yn bosibl drwy fuddsoddi i estyn y cyfleusterau addysgu a dysgu presennol. Disgwylir y bydd hyn yn cyfrannu ymhellach at wella ymddygiad ac agweddau at ddysgu, yn ogystal â chefnogi datblygiadau parhaus o ran darparu addysg a dysgu o safon uchel. O'r herwydd, disgwylir i'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol ar safonau'r ysgol.

### *Lles ac agweddau at ddysgu*

Ystyrir bod lles ac agweddau at ddysgu yn dda yn Ysgol Gynradd Drury. Rhagwelir y bydd creu dwy ystafell ddosbarth newydd yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a staff, ac yn gwella'r ddarpariaeth a'r agweddau at ddysgu.

Bydd yr estyniad newydd i'r cyfleusterau addysgu yn cael eu dylunio gyda mewnbwn yr ysgol i sicrhau eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar les ac agweddau disgyblion at ddysgu, yn unol ag ethos a gweledigaeth yr ysgol ar gyfer darparu'r cwricwlwm newydd.

### *Profiadau addysgu a dysgu*

Ystyrir bod profiadau addysgu a dysgu yn Ysgol Gynradd Drury yn dda. Disgwylir y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau addysg a dysgu.

<sup>2</sup> (Gwerthusiad o berfformiad ysgol cyn ac ar ôl symud i adeilad neu eiddo newydd a adnewyddwyd yn sylweddol, 2007)  
(An evaluation of performance of schools before and after moving into new buildings or significantly refurbished premises, 2007)

### *Gofal, cefnogaeth ac arweiniad*

Ystyrir bod gofal, cefnogaeth ac arweiniad yn dda yn Ysgol Gynradd Drury. Mae gan yr ysgol amgylchedd cynhwysol sy'n meithrin, gyda chynhwysiant yn rhan ganolog o system werthoedd yr ysgol. Bydd yr ysgol yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr estyniad yn galluogi parhad y ddarpariaeth honno.

### *Arwain a rheoli*

Fel y nodir uchod, ni fydd newid i arweinyddiaeth na rheolaeth yr ysgol. Bydd y gwaith arfaethedig i gynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol yn galluogi'r tîm arwain i siapio'r ddarpariaeth addysgu a dysgu i gefnogi'r cwricwlwm, gan gryfhau cysylltiadau ar draws y cyfnod sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

### *Categoreiddio ysgolion*

Mae'r System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yn rhoi darlun clir o ba mor dda mae ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion eraill yng Nghymru, ac yn helpu i nodi'r ysgolion sydd angen y cymorth, y gefnogaeth a'r arweiniad mwyaf i wella.

Oherwydd y pandemig parhaus, nid yw ysgolion wedi'u categoreiddio yn ystod blwyddyn academiaidd 2021-22 ac felly nid yw'r Cyngor yn gallu adrodd ar gategori Ysgol Gynradd Drury.

## RHAN C – Y CYNNIG

### C1. Beth fydd y cynnig yn ei ddarparu?

Bydd y cynnig yn cael ei hwyluso gan brosiect adeiladu cyfalaf ar gyfer yr ysgol, wedi'i ddarparu drwy Raglen Datblygiadau Cyfalaf y Cyngor.

Bydd y prosiect yn darparu estyniad a fydd yn cynnwys dwy ystafell ddosbarth newydd i wneud lle ar gyfer mwy o ddisgyblion; bydd nifer y lleoedd ysgol ar draws y carfannau yn cynyddu 56 disgybl llawn amser, gan ddod â nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol i 180 o leoedd llawn amser.

Bydd yr estyniad newydd yn cael ei godi o fewn safle presennol yr ysgol. Bydd disgyblion a staff yr ysgol yn parhau i ddefnyddio'r cyfleusterau presennol yn ystod y gwaith adeiladu. Bydd y gwaith adeiladu sy'n tarfu fwyaf yn cael ei wneud pan fydd yr ysgol ar gau.

### C2. Pryd fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith?

Ar hyn o bryd mae disgwyl i'r gwaith adeiladu ddechrau yn 2023, gyda'r cyfleusterau newydd yn barod erbyn haf 2024. Bydd nifer y lleoedd ysgol yn cynyddu i 180 o ddisgyblion llawn amser ar 1 Medi 2024.

### C3. Cost y cynnig

Bydd y prosiect yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf o oddeutu 2,700,000, sydd yn bosibl drwy fenthycia darbodus a chyllid Band B Llywodraeth Cymru.

Mae rhaglen gyllido Band B Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif Llywodraeth Cymru yn darparu "buddsoddiad hirdymor i ysgolion a cholegau ddatblygu fel canolfannau dysgu a lleihau nifer yr adeiladau sydd mewn cyflwr gwael".<sup>3</sup>

Dan y cyllid Band bydd B Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at 65% o gyfanswm cost y prosiect, gyda'r 35% sy'n weddill yn cael ei ariannu gan y Cyngor drwy fenthycia cyfalaf.

#### Costau reffeniw

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor eisoes yn nodi'r cynnydd yn y galw am leoedd ysgol fel pwysau.

### C4. Dewisiadau a ystyriwyd

| Dewis          | Disgrifiad                                                                                            | Cryfderau                                                           | Gwendidau                                                                                                  | Casgliad                                                                                                                                             |
|----------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Dewis 1</b> | Y sefyllfa bresennol<br>Dan y dewis hwn ni fyddai unrhyw gyfleuster newydd yn cael ei ddarparu. Mae'r | - Dim angen buddsoddi<br>- Dim amhariadau i'r ysgol na'r gymdogaeth | - Dim gallu ychwanegol i gwrdd â'r galw gan rieni a disgyblion<br>- Bydd yn rhaid i blant lleol deithio yn | Nid yw parhau efo'r sefyllfa bresennol yn mynd i'r afael â'r materion a ragwelir o ran pwysau lleol ar leoedd ysgol. Drwy beidio â buddsoddi ni fydd |

<sup>3</sup> (Raglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif, 2020) (21st Century Schools and Colleges Programme, 2020)

|                |                                                                                               |                                                                                                                                            |                                                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                            |
|----------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                | gofod presennol mewn cyflwr B ac addasrwydd D.                                                |                                                                                                                                            | bellach i fynd i ysgol arall<br>- Costau cludiant i'r Cyngor<br>- Costau sylweddol ystafelloedd dosbarth symudol | canlyniadau dysgwyr yn gwella, ni fydd materion cynnal a chadw yn derbyn sylw ac ni fydd yr adeilad yn addas i'r diben.<br>Felly nid yw hyn yn cael ei ystyried yn ddewis a ffefrir.                                                                                       |
| <b>Dewis 2</b> | Gwneud y newid lleiaf                                                                         | - Angen llai o fuddsoddiad cyfalaf<br>- Mynd i'r afael â rhai o'r materion cynnal a chadw sydd wedi cronni                                 | - Ni fyddai'n darparu lleoedd ysgol yn yr ardal sydd eu hangen<br>- Goblygiadau cludiant o'r cartref i'r ysgol   | Byddai'r dewis hwn yn mynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw yn yr ysgol yn unig. Tra byddai disgyblion yn elwa yn y tymor byr, byddai'r ysgol yn mynd yn ôl i'r sefyllfa bresennol yn yr hirdymor ac felly bydd yn wynebu'r un materion wrth wneud dim, ond yn y dyfodol. |
| <b>Dewis 3</b> | Adeilad newydd                                                                                | - Darparu'r lleoedd ysgol sydd eu hangen yn yr ardal<br>- Lleihau'r posibilrwydd o ddisgyblion yn teithio allan o'r ardal i dderbyn addysg | - Amhariadau i'r ysgol a'r gymuned yn ystod y gwaith adeiladu<br>Angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol             | Does dim digon o dir ar y safle presennol i godi ysgol newydd heb amharu'n sylweddol ar y disgyblion presennol. Yn ogystal, does dim tir ar gael yn yr ardal i godi ysgol o'r newydd.                                                                                      |
| <b>Dewis 4</b> | Estyn Ysgol Gynradd Drury a chynyddu nifer y lleoedd ysgol o 124 i 180 o ddysgwyr llawn amser | - Darparu'r lleoedd ysgol sydd eu hangen yn yr ardal<br>- Lleihau'r posibilrwydd o ddisgyblion yn teithio allan o'r ardal i dderbyn addysg | - Amhariadau posibl i'r ysgol a'r gymuned yn ystod y gwaith adeiladu                                             | Hwn yw'r dewis a ffefrir gan ei fod yn darparu'r nifer gofynnol o leoedd yn y lleoliad cywir.                                                                                                                                                                              |

Beth fydd y cynnig a ffefrir yn cyflawni?

Os caiff ei weithredu, bydd y cynnig yn darparu digon o le i gwrdd â'r galw disgwylidig gan deuluoedd lleol hyd y gellir ei ragweld.

## RHAN D – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG

---

### D1. Effaith ar yr amgylchedd lleol

---

Fel yr amlinellir uchod, mae cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol yn ymateb uniongyrchol i'r galw yn yr ardal, yn cynnwys y disgyblion hynny o'r datblygiadau tai newydd.

Bydd effaith y prosiect cyfalaf hwn ar draffig yn cael ei asesu yn ystod proses y cais cynllunio.

Mae yna lwybr cerdded diogel o gwmpas Drury a safle'r ysgol, a bydd gwella'r llwybr hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r cynllun arfaethedig yn ystod y broses gynllunio.

Bydd llwybrau diogel i ysgolion a threfniadau teithio llesol yn cael eu hystyried mewn partneriaeth â chydweithwyr yn yr Adran Gynllunio a Gwasanaethau Stryd. Byddwn yn rhoi strategaeth deithio a chynllun teithio llesol cydlynol ar waith i hyrwyddo dewisiadau teithio eco-gyfeillgar.

---

### D2. Effaith ar dderbyniadau

---

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod derbyn Ysgol Gynradd Drury a bydd ceisiadau am leoedd yn dal yn cael eu hasesu yn unol â Pholisi Derbyn y Cyngor.

Yn unol â'r polisi hwn, gall rhieni nodi eu dewis ysgol, ond nid oes sicrwydd y bydd eu plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol honno.

Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y polisi, a bydd derbyniadau yn cael eu gwneud yn unol â dewis y rhieni, yn amodol ar argaeledd. Os yw ysgol yn derbyn mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael, bydd dewis rhieni yn dal yn ystyriaeth ond bydd meini prawf y Cyngor yn cael eu defnyddio i flaenoriaethu.

Mae rhagor o wybodaeth am Bolisi Derbyn Ysgolion ar gael ar wefan y Cyngor yn

<https://www.sirymfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Admissions.aspx>.

---

### D3. Effaith ar gludiant o'r cartref i'r ysgol

---

Dan bolisi'r Cyngor darperir cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd sy'n byw dwy filltir neu fwy o'u hysgol agosaf, neu'r ysgol agosaf sydd ar gael. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y trefniant yma ac ni fydd argaeledd llwybrau cerdded o'r cartref i'r ysgol yn newid, ac eithrio er mwyn eu gwella. Mae nifer fawr o ddisgyblion yn byw o fewn pellter cerdded rhesymol i'r ysgol.

---

### D4. Effaith ar drosglwyddiadau i ysgol uwchradd

---

Ni fydd unrhyw newid i'r trefniadau trosglwyddo presennol mewn perthynas ag addysg uwchradd.

---

### D5. Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

---

Ni fydd unrhyw newid i'r ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd yr adeilad newydd yn darparu cyfleusterau sy'n gwella'r addysgu a'r dysgu i bob dysgwr, yn cynnwys dysgwyr mwy diamddiffyn fel dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol.

## D6. Effaith ar drefniadau llywodraethu

Ni fydd unrhyw newid i drefniadau llywodraethu'r ysgol dan y cynnig hwn.

## D7. Effaith ar staff

Mae'r cynnydd arfaethedig yn nifer y disgyblion yn debygol o ddarparu swyddi newydd gan y bydd angen mwy o staff addysgu. Bydd Pennaeth a Chorff Llywodraethu'r ysgol yn recriwtio'r staff angenrheidiol, gyda chymorth y Cyngor.

## D8. Effaith ar ysgolion eraill

Gan mai estyn yr ysgol bresennol yw'r cynnig, tybir mai effaith ddibwys y bydd hyn yn ei chael ar ysgolion cyfagos ac felly nid yw'r ddogfen hon yn cynnwys manylion ysgolion a effeithir arnynt.

## D9. Risgiau'r prosiect

Mae rhestr o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig ar gael isod:

| Risgiau'r prosiect                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
|---------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Risgiau                                                             | Camau Lliniaru                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| Methu derbyn caniatâd cynllunio yn effeithio ar ddarparu'r prosiect | Bydd yn rhaid derbyn caniatâd cynllunio i estyn adeilad Ysgol Gynradd Drury                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| Digon o gyllid i ddarparu'r prosiect                                | Mae cwmphas arfaethedig a dyluniad amlinellol y prosiect wedi'u hasesu'n fasnachol ac fe'i hystyrir yn fforddiadwy o fewn rhaglen gyfalaf Cyngor Sir y Fflint. Mae fforddiadwyedd y prosiect yn destun adolygiad parhaus. Cafodd cyllideb y prosiect ei phennu cyn pandemig Covid-19 ac mae'n bosibl y bydd prinder gweithwyr a deunyddiau yn cael effaith arni. Mae'r Cyngor yn monitro costau'r prosiect yn barhaus i sicrhau eu bod o fewn y gyllideb. Bydd unrhyw gynnydd sylweddol mewn costau yn arwain at oedi'r prosiect er mwyn adolygu'r rhesymau a nodi datrysiadau posibl. |
| Y galw am leoedd yn lleihau                                         | Mae'r amcanestyniadau o nifer y disgyblion yn dangos posibilrwydd o leihad yn y galw yn ardal Drury                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| Y galw am leoedd yn cynyddu y tu hwnt i'r niferoedd arfaethedig     | Mae'n bosibl y bydd yr ysgol yn parhau i dderbyn mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn hyderus bod yr estyniad arfaethedig yn ddigon i gwrdd â'r galw hyd y gellir ei ragweld.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| Risgiau allanol                                                     | Gall pandemig Covid-19 effeithio ar bob agwedd o'r cynnig, o'r ymgynghoriad i'r gwaith adeiladu. Mae'r Cyngor eisoes wedi addasu i ffordd newydd o weithio yn ystod tonau'r feirws sydd wedi caniatáu iddo fwrw ymlaen â'r holl brosiectau buddsoddi mawr mewn ysgolion. Petai ton arall o'r feirws yn digwydd, mae'r Cyngor yn hyderus bod modd rhoi prosiectau ar waith o fewn y cyfyngiadau amser. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhagor o donau o'r feirws y tu hwnt i'w reolaeth ac felly bydd yn bwrw ymlaen â'r cynnig a phob prosiect arall gan dderbyn y risg hon. |

---

#### **D10. Asesiadau o effaith**

---

Mae asesiad o'r effaith integredig wedi'i gynnal ar gyfer y cynnig hwn ac ar gael ar wefan y Cyngor.

---

#### **D11. Effaith ar y ddarpariaeth Gymraeg**

---

Un o ganlyniadau allweddol Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yw cynyddu nifer y plant saith mlwydd oed sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fydd y cynnig hwn yn darparu lleoedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol. Nid oes ysgolion Cymraeg yn yr ardal a all gael eu heffeithio.

Ni fydd y cynnig yn effeithio ar gynlluniau'r Cyngor i ddatblygu a hyrwyddo darpariaeth Gymraeg. Felly cydnabyddir na fydd y cynnig hwn yn gwneud unrhyw gyfraniad at dargedau'r Cyngor mewn perthynas â strategaeth Cymraeg 2050.

---

#### **D12. Effaith adeiladu**

---

Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, nid oes gan y portffolio Addysg ac Ieuenctid unrhyw gynllun arall ar gyfer y safle oni bai am estyn adeilad presennol yr ysgol. Byddai'r adeilad a'r safle yn parhau i fod ym mhortffolio Addysg.

---

#### **D13. Trefniadau dros dro**

---

Ni fydd trefniadau dros dro yn cael eu gwneud yn ystod gweithredu'r cynnig. Wrth ddarparu'r cynnig byddwn yn ceisio sicrhau na fydd y gwaith yn amharu gormod ar ddysgwyr, yn enwedig yn ystod y cam adeiladu.

## RHAN E– FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

### E1. Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Mae'r ymateb hwn yn ymwneud â'r cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Drury o 124 i 180 o ddisgyblion llawn amser, sef cynnydd o 56 disgybl llawn amser rhwng 3 ac 11 oed, i'w roi ar waith ar 1 Medi 2024.

Mae eich barn chi'n bwysig.

Dywedwch wrthym ni beth ydych chi'n feddwl o'r cynnig drwy lenwi'r holiadur hwn a'i ddychwelyd i'r Tîm Moderneiddio Ysgolion.

Fel arall, gallwch lenwi hwn ar-lein yn:

Dilynwch y ddolen hon <https://www.smartsurvey.co.uk/s/C6FWQH/> neu anfonwch eich ymateb ar e-bost i [21stCenturySchools@flintshire.gov.uk](mailto:21stCenturySchools@flintshire.gov.uk). Mae'n rhaid i chi anfon eich sylwadau cyn hanner nos ar 11 Ebrill 2022.

Sylwch, ni fydd ymatebion negyddol i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau i'r cynnig, byddant yn cael eu cofnodi fel sylwadau anffafriol. Mae'n rhaid i chi aros tan y cyflwynir hysbysiad statudol i gyflwyno gwrthwynebiad.

1. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i:

Estyn Ysgol Gynradd Drury a chynyddu nifer y lleoedd 3-11 oed yn yr ysgol o 124 i 180 o ddisgyblion llawn amser, sef cynnydd o 56 lle ysgol, ar 1 Medi 2024?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Defnyddiwch y blwch isod i ddarparu sylwadau neu i egluro pa elfen o'r cynnig rydych chi'n ei chefnogi neu beidio.

2. Ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn cael effaith cadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Cadarnhaol ☐

Negyddol ☐

Dim effaith ☐

3. Os ydych chi'n credu y bydd yn cael effaith negyddol, pa gamau y gallwn ni eu cymryd i leihau neu ddileu'r effaith honno?

4. Ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os hoffech chi dderbyn hysbysiad ynghylch cyhoeddiad yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, nodwch eich cyfeiriad e-bost a'ch cyfeiriad post yn y blwch isod.

## E2. Gwybodaeth monitro cydraddoldeb

Er mwyn monitro cynwysoldeb ein gwaith ymgysylltu, gwerthfawrogem eich cydweithrediad i ddarparu'r wybodaeth a ofynnir amdani isod. Cedwir yr wybodaeth yn gyfrinachol ac anhysbys, a bydd yn cael ei defnyddio at ddibenion monitro ystadegol yn unig. Bydd yn cael ei dinistrio'n ddiogel ar ôl i ni gasglu'r wybodaeth.

**Mae darparu'r wybodaeth hon yn hollol wirfoddol.**

|                                           |  |
|-------------------------------------------|--|
| Nodwch eich dyddiad geni<br>(DD/MM/BBBB): |  |
|-------------------------------------------|--|

### Beth yw eich rhyw?

|                             |  |
|-----------------------------|--|
| Gwryw                       |  |
| Benyw                       |  |
| Gwell gennyf beidio â dweud |  |
| Arall:                      |  |

### Sut fydddech chi'n disgrifio eich cenedligrwydd?

|                                     |  |                             |  |
|-------------------------------------|--|-----------------------------|--|
| Prydeinig                           |  | Albanwr/Albanes             |  |
| Sais/Saesnes                        |  | Cymro/Cymraes               |  |
| Gwyddel/Gwyddeles                   |  | Gwell gennyf beidio â dweud |  |
| Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon |  | Arall:                      |  |

### Sut fydddech chi'n disgrifio eich ethnigrwydd?

|                                         |  |                                                |  |
|-----------------------------------------|--|------------------------------------------------|--|
| Gwyn Prydeinig                          |  | Gwyn o Loegr                                   |  |
| Gwyn o Ogledd Iwerddon                  |  | Gwyn o'r Alban                                 |  |
| Gwyn Cymreig                            |  | Gwyn Gwyddelig                                 |  |
| Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig     |  | Gwyn - Arall                                   |  |
| Prydeinig Cymysg – Gwyn / Du Caribïaidd |  | Prydeinig Cymysg – Gwyn / Du Affricanaidd      |  |
| Prydeinig Cymysg - Gwyn / Asiaidd       |  | Prydeinig Cymysg - Unrhyw gefndir cymysg arall |  |
| Prydeinig Du - Caribïaidd               |  | Prydeinig Du - Affricanaidd                    |  |
| Prydeinig Du - Unrhyw gefndir du arall  |  | Asiaidd – Indiaidd                             |  |
| Asiaidd - Bangladeshaidd                |  | Asiaidd - Pacistanaidd                         |  |
| Asiaidd - Tsieineaidd                   |  | Asiaidd - Arall                                |  |
| Prydeinig arall - Arabaidd              |  | Gwell gennyf beidio â dweud                    |  |
| Arall:                                  |  |                                                |  |

**Tueddiad Rhywiol** Pa un o'r canlynol sydd yn eich disgrifio chi orau? (Gofynnir y cwestiwn hwn i unigolion dros 16 oed).

|                      |  |                             |  |
|----------------------|--|-----------------------------|--|
| Heterorywiol / Strê  |  | Deurywiol                   |  |
| Dyn Hoyw             |  | Gwell gennyf beidio â dweud |  |
| Dynes hoyw / lesbiad |  | Arall:                      |  |

**Beth yw eich crefydd?**

|                          |  |                             |  |
|--------------------------|--|-----------------------------|--|
| Cristnogaeth (pob enwad) |  | Iddewiaeth                  |  |
| Bwdhaeth                 |  | Anffyddiwr                  |  |
| Hindŵaeth                |  | Dim Crefydd                 |  |
| Islam                    |  | Gwell gennyf beidio â dweud |  |
| Sikhiaeth                |  | Arall:                      |  |

**Ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil gyda rhywun o'r un rhyw?**

|                             |  |         |  |
|-----------------------------|--|---------|--|
| Ydw                         |  | Nac ydw |  |
| Gwell gennyf beidio â dweud |  |         |  |

**Anabledd** Yn defnyddio'r diffiniad isod, ydych chi'n eich ystyried eich hun yn anabl?

Mae Adran 6(1) Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod gan unigolyn anabledd os:

(a) Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a

(b) bod y nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn hwnnw i wneud gweithgareddau arferol bob dydd.

|                             |  |         |  |
|-----------------------------|--|---------|--|
| Ydw                         |  | Nac ydw |  |
| Gwell gennyf beidio â dweud |  |         |  |

**Cyfrifoldebau gofalu** Ydych chi'n gofalu am rywun neu'n darparu cymorth neu gefnogaeth i aelod o'ch teulu, ffrind, cymydog neu i eraill oherwydd afiechyd / anabledd corfforol neu feddyliol tymor hir; neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?

|                             |  |         |  |
|-----------------------------|--|---------|--|
| Ydw                         |  | Nac ydw |  |
| Gwell gennyf beidio â dweud |  |         |  |

**Beth yw eich dewis iaith?**

|                             |  |                                          |  |
|-----------------------------|--|------------------------------------------|--|
| Saesneg                     |  | Cymraeg                                  |  |
| Gwell gennyf beidio â dweud |  | Arall (yn cynnwys iaith Arwyddo Prydain) |  |